Datganiad Grant Dysgu Proffesiynol Ysgol David Hughes 2025- 2026

Bydd y cyllid hwn yn helpu Ysgol David Hughes i fodloni gofynion y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol newydd ac yn fodd i fuddsoddi yn elfennau'r model. Galluoga hyn i'r ysgol fuddsoddi mewn llwybrau dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr a buddsoddi mewn cydweithrediad. Prif ddefnydd y cyllid fydd creu amser i ymarferwyr wneud y newidiadau i arferion sydd eu hangen cyn gwireddu'r cwricwlwm newydd.

Bydd y cyllid yn targedu'r dysgu sydd ei angen ar athrawon a dysgwyr i'w paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd a bydd pob ymarferydd, athro a chymorthydd, yn cael cyfle i gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol. Defnyddir y cyllid i gefnogi dysgu proffesiynol ar y cyd ar draws ysgolion gan gynnwys y sector gynradd.

Yn unol â hyn, bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi y canlynol:

- rhyddhau athrawon a chymorthyddion dysgu i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol;
- talu unigolion, gan greu rolau a swyddi, i gefnogi'r gwaith o gydlynu gweithgareddau DP ar draws yr ysgol. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi cyd-weithwyr, adrannau neu ddulliau gweithredu ysgol gyfan gydag ymholi beirniadol, rheoli newid a gweithgareddau YSD
- costau rhyddhau er mwyn i ymarferwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil ac ymholi beirniadol a hynny o fewn cyd-destun y pedwar diben
- costau rhyddhau i alluogi ymarferwyr i gydweithio yn yr ysgol ac ar draws clystyrau a rhwydweithiau ysgolion - gan gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol ar y cyd a chynllunio ar y cyd
- sicrhau datblygiad proffesiynol arbenigol er mwyn arfogi athrawon a chymhorthyddion i gefnogi disgyblion anghenion dysgu ychwanegol yn y modd mwyaf priodol i bob unigolyn.

Yn 2025-26 bu i Ysgol David Hughes dderbyn Grant Dysgu Proffesiynol o £38,799